



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Penodi Is-gadeirydd (Cyfarwyddwr Anweithredol)

Dyddiad cau: 14 Tachwedd 2022
Dyddiad y cyfweiliad: 7 Rhagfyr 2022



Cynnwys

Gwneud cais.....	3
Datganiad personol.....	3
Curriculum Vitae (CV)	4
Sgiliau Cymraeg.....	4
Y Cynllun Gwarantu Cyfweliad.....	4
Amserlen ddangosol	5
Ffeithiau allweddol am y swydd	5
Tâl	7
Ymrwymiad Amser	7
Manylion cyswllt	7
Atodiad A:	8
Rôl yr Is-gadeirydd:.....	8
Rôl y Bwrdd	8
Y prif rolau y mae'r Bwrdd yn eu cyflawni yn y sefydliad yw:.....	8
Mae rôl aelod o'r Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:	9
Gwybodaeth a Phrofiad	11
Y Gymraeg	12
Tâl	12
Treuliau	12
Deiliadaeth y swydd	12
Atebolrwydd	12
Cymorth i Aelodau Anabl	12
Cymhwystra	12
Gwrthdaro buddiannau.....	13
Safonau mewn bywyd cyhoeddus.....	13
Atodiad B	15
Ynglŷn ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.....	15
Strwythur Sefydliadol Iechyd Cyhoeddus Cymru	21
Crynodeb Gweithredol y Cynllun Strategol	22
Yr heriau sy'n ein hwynebu.....	23
Ein cyfleoedd i wneud gwahaniaeth	24
Y GIG yng Nghymru.....	25
Y Llywodraeth	25
Atodiad C.....	26
Y broses ddethol	26
Atodiad D.....	28
Datganiad amrywiaeth	28

Gwneud cais

Diolch i chi am fynegi diddordeb ym mhenodiad Is-gadeirydd (Cyfarwyddwr Anweithredol) i Fwrdd Unedol Iechyd Cyhoeddus Cymru; mae'r sefydliad wedi'i gyfansoddi fel Ymddiriedolaeth y GIG ac mae hefyd yn Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae angen aelod newydd gyflawni rôl Is-gadeirydd (sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol) i gyflawni rôl aelod o'r Bwrdd, ar draws holl rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad. Mae'r Bwrdd: yn gosod cyfeiriad strategol; yn meithrin ac yn cynnal partneriaethau strategol; yn pennu archwaeth risg, yn cymeradwyo risgiau strategol ac yn craffu ar y rhain; yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni yn erbyn cynlluniau blynyddol; yn pennu naws a diwylliant y sefydliad, gan sicrhau y gall staff ddod i'r gwaith a ffynnu drwy fod yn nhw eu hunain; yn cynnal trefniadau llywodraethu da. Mae'r Atodiadau ynghlwm yn cynnwys manylion am rôl yr Is-gadeirydd a manyleb y person, a rôl a chyfrifoldebau Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflen gais a **dwy** ddogfen ategol. Dogfen yn ateb y cwestiynau isod yw'r gyntaf, sef 'datganiad personol'. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na thair ochr i dudalen A4. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn. Curriculum vitae llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen. Dylai'r ddwy ddogfen gael eu llwytho i'r adran "Rhesymau dros Ymgeisio" o'r ffurflen gais ar-lein. Dylid defnyddio ffont maint 12 o leiaf ar y dogfennau ategol.

Datganiad personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir yn y cwestiynau isod. Chi fydd yn penderfynu sut y byddwch am gyflwyno'r wybodaeth. Er hynny, dylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob un o'r meini prawf ac yn disgrifio eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol.

Nodwch hefyd y bydd eich tystiolaeth yn cael ei hasesu i benderfynu a oes gennych y lefel angenrheidiol o brofiad i weithredu'n effeithiol ar lefel Bwrdd.

Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Yn olaf, dylech gynnwys paragraff bras sy'n amlinellu pam rydych wedi ymgeisio am y rôl a pha fuddion y byddech yn gallu eu cynnig i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol

1. Disgrifiwch eich dealltwriaeth o'r heriau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau i'r maes iechyd cyhoeddus yng Nghymru a sut y byddai'r rhain yn berthnasol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.
2. Rhwch drosolwg o'ch profiad o arwain a/neu ddatblygu sefydliad llwyddiannus yn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector, neu elfen sylweddol o hyn, gyda'r gallu i edrych ymlaen a darparu arweiniad strategol.
3. Rhwch enghraifft neu enghreifftiau penodol o sefyllfa pan fu'n rhaid i chi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at wneud penderfyniadau cadarn.
4. Rhwch enghraifft neu enghreifftiau penodol o adeg pan rydych wedi gweithio o fewn amgylcheddau rhanddeiliaid cymhleth a thimau amlddisgyblaeth.
5. Disgrifiwch achlysur lle rydych wedi gweithio gyda rhywun ar fater pwysig lle'r oedd gennych safbwyntiau gwahanol, ond wedi llwyddo i gynnal perthynas adeiladol.
6. Disgrifiwch yr hyn rydych chi'n ei ystyried yw rôl allweddol Is-gadeirydd mewn amgylchedd Bwrdd Unedol; a rhwch enghraifft o sut rydych wedi cyflawni'r rôl hon neu sut y byddech yn gwneud hynny.

Curriculum Vitae (CV)

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'r dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Sgiliau Cymraeg

Fel sefydliad cenedlaethol y GIG, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i gryfhau ei ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog ar draws Cymru ac ymgysylltu â'r boblogaeth yn effeithiol yn Gymraeg a Saesneg. Mae wedi ymrwymo i sicrhau bod amrywiaeth ei Fwrdd yn cynrychioli Cymru, ei chymunedau a'i phroffil dwyieithog. O ganlyniad, mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn **ofyniad dymunol** ar gyfer penodi i'r swydd hon.

Y Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad i bobl ag anabledd. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person ag anabledd fel person sydd â nam corfforol neu feddyliol a bod y nam yn cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, caiff ymgeisydd anabl eu dewis ar gyfer cyfweliad os bydd yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd.

Amserlen ddangosol

Dyddiad cau:	14 Tachwedd 2022
Cynhelir cyfweiliadau:	7 Rhagfyr 2022
Dyddiad Dechrau	1 Ebrill 2023

Ffeithiau allweddol am y swydd

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru. Ei ddiben yw [Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru](#) ac, wrth gyflawni'r weledigaeth hon, mae'n chwarae rhan ganolog mewn ysgogi gwelliannau o ran iechyd a llesiant y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella canlyniadau gofal iechyd, diogelu'r cyhoedd a chefnogi datblygu iechyd ym mhob polisi ledled Cymru.

Mae'r Strategaeth Hirdymor yn amlinellu sut y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion, ein harbenigedd a'n hadnoddau ar y cyd i sicrhau dyfodol iachach i Gymru drwy ein saith blaenoriaeth strategol allweddol sy'n gysylltiedig o'u hanfod. Mae hyn bellach yn bwysicach nag erioed wrth i ni barhau i ymateb i'r effaith y mae pandemig y Coronafeirws (COVID-19) yn ei chael, ac y bydd yn parhau i'w chael, ar bobl Cymru, y Deyrnas Unedig yn ehangach ac yn rhyngwladol, a mesur yr effaith honno a dysgu ohoni.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol; mae'r tîm o 2097 o bobl dalentog yn chwarae rhan ganolog mewn ysgogi gwelliannau o ran iechyd a llesiant y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella canlyniadau gofal iechyd, diogelu'r cyhoedd a chefnogi datblygu iechyd ym mhob polisi ledled Cymru drwy Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd.

Ers mis Chwefror 2020, mae'r sefydliad cyfan wedi bod yn canolbwyntio ar ddarparu arweinyddiaeth system ac ymateb i bandemig COVID-19, a chynghori arno. Mae hynny wedi golygu y bu'n rhaid ehangu gweithgareddau diogelu iechyd, microbioleg, arolygu clefydau trosglwyddadwy a chynghori ar bolisi yn sylweddol ar gyflymder a graddfa nas gwelwyd eu bath o'r blaen. Mae'r sefydliad wedi tyfu'n sylweddol gydag adnoddau ychwanegol (226 aelod o staff ychwanegol) yn y labordai microbioleg, ynghyd â labordy newydd yn agor ym mis Rhagfyr 2020, a staff ychwanegol ar draws ein gweithgareddau diogelu iechyd gyda'r potensial i hyn dyfu ymhellach. Mae'r ad-drefnu sylweddol o fewn y sefydliad wedi effeithio ar ein gallu i gynnal gweithgareddau allweddol eraill ac rydym wedi gweithio'n arloesol i geisio comisiynu gweithgaredd ychwanegol mewn perthynas â gweithgareddau iechyd y boblogaeth ehangach i gynghori ar ymyraethau iechyd cyhoeddus sy'n lliniaru niwed economaidd-gymdeithasol a niwed anuniongyrchol COVID-19 ar iechyd a llesiant.

Er gwaethaf hyn, mae'n gyfnod sy'n cynnig cyfleoedd i'r maes iechyd cyhoeddus yng Nghymru, gyda chyd-destun polisi a deddfwriaeth arloesol a blaengar sy'n rhoi lle blaenllaw i iechyd, llesiant a chynaliadwyedd ym maes gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae tri prif sbardun i hyn, sef: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Rhaglen Lywodraethu: Ffyniant i Bawb, y strategaeth genedlaethol, a Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ein ffocws yn glir iawn. Gwneud gwelliannau i iechyd a llesiant ar raddfa fawr ac yn gyflym a chefnogi timau cenedlaethol a lleol i feddwl, ymgysylltu a gweithio â phartneriaid yn wahanol a rheoli newid yn dda. Mae angen i ni hefyd gefnogi ein partneriaid gan gynnwys cymunedau, gweithleoedd, y GIG, awdurdodau lleol, y trydydd sector, yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub ac asiantaethau tai i ddod yn eiriolwyr ac yn hyrwyddwyr iechyd cyhoeddus o fewn ac ar draws cymunedau.

Yn ogystal, mae angen moderneiddio sut rydym ni, a'r system iechyd cyhoeddus ehangach, yn ymgysylltu, yn rhyngweithio ac yn cyfathrebu â'r cyhoedd a chymunedau. Ni fu hyn erioed yn bwysicach nag yn ystod pandemig COVID-19 ac mewn perthynas â'r cyngor, ar ffurf y Cynllun Ymateb er mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd, a ddatblygwyd gennym ar gyfer Llywodraeth Cymru fel sail i weithredu'r Strategaeth Profi Olrhain Diogelu bresennol. Daeth hwn yn fodel gweithredol yng Nghymru yn seiliedig ar waith amlasiantaeth ar y cyd o fewn fframwaith cyson i Gymru gyfan.

Rydym hefyd wedi sefydlu nifer o bartneriaethau strategol allweddol a chydweithrediadau i ysgogi gwelliannau mewn iechyd, llesiant a chynaliadwyedd ledled Cymru - gan ganolbwyntio'n benodol ar adeiladu gwytnwch a'r penderfynyddion ehangach. Dull traws-sector yw Creu Cymru Iachach i symud biliynau o gyllideb Llywodraeth Cymru i waith atal ac ymyrraeth gynnar, drwy roi pum blaenoriaeth traws-sector allweddol ar waith y cytunwyd arnynt â phartneriaid. Mae CymruWellWales, yn bartneriaeth strategol draws-sector, ac yn arwain ar gyfer Cymru o ran yr ymgyrch 1000 Diwrnod Cyntaf a Chanolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) Cymru, y rhaglen genedlaethol Camau Cynnar Gyda'n Gilydd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol. Nod hyn yw ymgorffori dull iechyd cyhoeddus o blismona yng Nghymru a Phartneriaeth Iechyd a Thai strategol i Gymru.

Mae Cymru'n arweinydd byd-eang ym maes polisi iechyd y cyhoedd, sy'n dyst i'r ffaith bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o Ganolfannau Cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Wrth weithio gydag arbenigwyr o'r radd flaenaf yn Sefydliad Iechyd y Byd ac ar draws eu rhwydweithiau rhyngwladol, gallwn ddeall yn well pa bolisiâu ac ymyriadau iechyd cyhoeddus sy'n gweithio orau i bobl Cymru ac i'r rhai mewn gwledydd eraill ledled y byd.

Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, mae gennym gydestun polisi a deddfwriaeth unigryw sy'n sail i'n rhaglen drawsnewid i fanteisio ar y cyfleoedd ar gyfer Cymru iach a chynaliadwy. Byddwch yn ymuno â sefydliad arloesol, agored ac uchelgeisiol gyda'r bobl fwyaf rhyfeddol a thalentog ar draws ein holl swyddogaethau, sydd wedi chwarae ac sy'n parhau i chwarae rhan ddigryffelyb yn yr ymateb i COVID-19. Drwy ein pobl, rydym yn ymdrechu i ysgogi gwelliannau o ran canlyniadau iechyd y boblogaeth ar draws ystod eang ein swyddogaethau drwy ymyriadau a dulliau gweithredu â ffocws sy'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth, ac sy'n cael yr effaith a'r budd mwyaf o fuddsoddiad.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gyfansoddi fel Ymddiriedolaeth y GIG ac mae'n awyddus i benodi Is-gadeirydd i'w Fwrdd. Mae hwn yn gyfle sylweddol i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i gyfrannu at ei weledigaeth: *Gweithio i Wireddu Dyfodol Iachach i Gymru.*

Tâl

£23,192 y flwyddyn. (£223 y dydd).

Ymrwymiad Amser

Mae'r swydd Is-gadeirydd (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn seiliedig ar ymrwymiad tybiedig o 8 (wyth) diwrnod y mis o leiaf ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, ac mae hynny'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Cyfarwyddwyr Anweithredol, cysylltwch â:

Helen Bushell, Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd,
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ffôn: 07711 819665

E-bost: helen.bushell@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru, ewch i wefan y sefydliad:

<https://icc.gig.cymru/>

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i

<https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus>

Rôl yr Is-gadeirydd:

SWYDD

Ers 1 Ebrill 2022, mae Is-gadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rôl statudol annibynnol a grëwyd o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Mae swydd yr Is-gadeirydd wedi cael ei phenodi'n fewnol ers mis Tachwedd 2017 o'r Aelodau Anweithredol sydd ar hyn o bryd yn dal tymor swydd ar Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan Reoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 1990.

CYFNOD Y SWYDD

Bydd cyfnod swydd yr Is-Gadeirydd yn gymesur â chyfnod y swydd fel y caiff ei gadarnhau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

YMRWYMIAD AMSER

Bydd yr Is-gadeirydd yn cael tâl ar gyfradd ddyddiol drethadwy sy'n gymesur â chanllawiau Llywodraeth Cymru, pro rata am ymrwymiad tybiannol o 8 diwrnod y mis ond bydd hyn yn amodol ar ofynion y sefydliad.

Fel ym mis Ebrill 2022, yn seiliedig ar 8 diwrnod y mis - £23,192 y flwyddyn. (£223 y dydd).

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru. Ei ddiben yw **Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru** ac, wrth gyflawni'r weledigaeth hon, mae'n chwarae rhan ganolog mewn ysgogi gwelliannau o ran iechyd a llesiant y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella canlyniadau gofal iechyd, diogelu'r cyhoedd a chefnogi datblygu iechyd ym mhob polisi ledled Cymru.

Rôl y Bwrdd

Y prif rolau y mae'r Bwrdd yn eu cyflawni yn y sefydliad yw:

- llunio strategaeth a phennu cyfeiriad y sefydliad
- sicrhau atebolrwydd drwy ddwyn y Swyddogion Gweithredol i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd bod y systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy
- pennu archwaeth risg y sefydliad, pennu'r risgiau strategol allweddol a goruchwyllo'r gwaith o reoli a lliniaru'r risgiau hynny
- llunio naws a diwylliant iach ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad
- meithrin a chynnal partneriaethau strategol
- sicrhau llywodraethu da

Mae rôl aelod o'r Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- **Strategaeth:** cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad:** sicrhau bod trefniadau rheoli ac arweinyddiaeth effeithiol ar waith drwy Dîm Gweithredol effeithiol. Dwyn y Tîm Gweithredol i gyfrif am ei berfformiad wrth gyflawni'r nodau a'r amcanion y cytunwyd arnynt drwy graffu a herio pwrpasol, a monitro adrodd ar berfformiad
- **Rheolaeth ariannol a risg:** sicrhau bod y wybodaeth ariannol yn gywir a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn. Sicrhau bod yr holl risgiau strategol yn cael eu nodi, eu rheoli a'u lliniaru'n briodol.
- **Ymddygiad:** arddel gwerthoedd y sefydliad, cydymffurfio â'r safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r Bwrdd ddangos drwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, ein staff a'n rhanddeiliaid.

RÔL YR IS-GADEIRYDD

Mae'r Is-gadeirydd yn bartner cyfartal ar y Bwrdd gyda'u cydweithwyr Anweithredol a Gweithredol ac mae'n ofynnol iddynt chwarae rhan lawn yn y gwaith o lywodraethu'r sefydliad ar draws pob maes o'i weithgarwch, yn glinigol a chorfforaethol. Mae cyfraniad y Cyfarwyddwyr Anweithredol at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eu hannibyniaeth, eu profiad blaenorol, eu gwybodaeth, a'u gallu i sefyll yn ôl o reolaeth weithredol y Bwrdd o ddydd i ddydd. Disgwylir i Gyfarwyddwyr Annibynnol gyflwyno barn annibynnol ar faterion yn ymwneud â pherfformiad, penodiadau allweddol, ystyried y dyfodol ac atebolrwydd. Mae angen i Gyfarwyddwyr Anweithredol gyfrannu at bob penderfyniad a wneir gan y Bwrdd, a byddant yn derbyn cyfrifoldeb corfforaethol am y penderfyniadau hynny, fel y mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ei wneud.

Fel Cyfarwyddwr Anweithredol,

Mae gan yr Is-gadeirydd yr un cyfrifoldebau â Chyfarwyddwyr Anweithredol, mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Cyflawni dyletswyddau llywodraethu'r sefydliad yn effeithiol, yn ei holl ffurfiau integredig. Bwrdd Unedol yw'r Bwrdd, ac mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn gyfrifol ar y cyd am wneud penderfyniadau ar lefel y Bwrdd. Rôl y Cyfarwyddwyr Anweithredol yw craffu a goruchwyllo ac i roi o'u profiad a'u harbenigedd i gefnogi trafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd.
- Pennu naws a diwylliant y sefydliad, gan sicrhau y gall yr holl staff ddod i'r gwaith a ffynnu drwy fod yn nhw eu hunain, heb ofni gwahaniaethu nac anfantais o unrhyw fath.
- Cynnal 'llwybr clir' o'r Bwrdd i'r rheng flaen ac yn ôl i'r Bwrdd.

- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorffennol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli beunyddiol.
- Cyfrannu at broses gydgyssylltiedig, gadarn a thryloyw o wneud penderfyniadau ar lefel Bwrdd, er mwyn sicrhau eglurder ac atebolrwydd y penderfyniadau hynny.
- Mae disgwyl y bydd gennych wybodaeth ymarferol ddigonol o wasanaethau a swyddogaethau lechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau trefniadau llywodraethu da, ac i asesu risg yn effeithiol a rheoli a chyflawni yn erbyn cynlluniau cymeradwy.
- Gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill i sicrhau bod yr holl safbwyntiau perthnasol yn cael eu hystyried yn ystod y broses benderfynu. Dylai buddiannau defnyddwyr gwasanaethau fod o'r pwys mwyaf yn hyn o beth.
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol er mwyn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau mor wybodus â phosibl.
- Goruchwyllo'r broses o ofalu am adnoddau'n effeithiol, gan sicrhau bod y broses o ddyrannu a defnyddio'r adnoddau'n agored a bod atebolrwydd ynghylch hynny.
- Lle mae gan Gyfarwyddwyr Anweithredol bortffolio penodol, adlewyrchu barn rhanddeiliaid y portffolio hwnnw ar lefel y Bwrdd.
- Cyflawni'r rôl yn unol ag Egwyddorion Nolan a Chod Ymddygiad Bwrdd lechyd Cyhoeddus Cymru.

Fel Is-gadeirydd, byddwch hefyd yn gyfrifol am;

- Weithredu fel Cadeirydd yn absenoldeb Cadeirydd y Bwrdd;
- Cefnogi'r Cadeirydd a'r Bwrdd yn ehangach yn eu cyfrifoldebau fel yr amlinellir uchod;
- Cynrychioli'r Cadeirydd a'r sefydliad mewn digwyddiadau yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd;
- Mynd i gyfarfodydd Grŵp Cyfoedion Is-gadeiryddion GIG Cymru, gan gymryd rhan weithredol wrth gynrychioli buddiannau'r sefydliad a rhoi gwybod i'r Cadeirydd a chynrychiolwyr eraill y sefydliad fel y bo'n briodol; sicrhau bod ystyriaethau ieuchyd y boblogaeth yn cael eu cynrychioli yn ystod trafodaethau; mynd i gyfarfodydd Gweinidogol rheolaidd gyda'r grŵp cyfoedion hwn;
- Cynrychioli'r sefydliad mewn maes gwaith arwain system;
- Parodrwydd i gadeirio a/neu fod yn aelod o un neu ragor o is-bwyllgorau Bwrdd ICC;
- Cymryd rhan yn rhagweithiol a dylanwadu ar faterion strategol ar ran y Cadeirydd a'r Bwrdd;
- Mabwysiadu rôl fel llysgennad allanol, gan gynrychioli'r bwrdd yn gyhoeddus ac ennyn hyder y cyhoedd

Byddwch yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan feithrin perthnasoedd allweddol, fel y cânt eu cefnogi gan y Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd, gan sicrhau bod barn defnyddwyr

y gwasanaethau a staff yn ogystal â phartneriaid arbenigol eraill a phartneriaid eraill sydd â diddordeb yn cyfrannu'n llawn at helpu i lunio, datblygu a gwella gwasanaethau.

Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad o arwain a/neu ddatblygu sefydliad preifat, cyhoeddus neu drydydd sector llwyddiannus, neu elfen sylweddol o'r gwaith hwnnw, gyda'r gallu i edrych ymlaen a darparu arweinyddiaeth strategol;
- Profiad o ddeall y berthynas rhwng dyrannu adnoddau a rheoli a chyflawni blaenoriaethau gwasanaeth o fewn fframwaith o lywodraethu cadarn;
- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at wneud penderfyniadau cadarn;
- Y gallu i weithio gyda swyddogion gweithredol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn arwain y sefydliad yn effeithiol. Pan fydd yn ofynnol, byddwch yn dangos sgiliau a fydd yn eich galluogi i ddwyn swyddogion gweithredol i gyfrif am berfformiad, tra'n cynnal perthynas adeiladol â hwy;
- Y gallu i gyfrannu at lywodraethiant y sefydliad, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith;
- Profiad o weithio o fewn amgylcheddau rhanddeiliaid cymhleth a thimau amlddisgyblaethol.

Rhinweddau a Sgiliau Personol

- Y gallu i arwain ac ysbrydoli staff, i edrych ymlaen a nodi materion allweddol i'r sefydliad;
- Sgiliau rhyngpersonol cryf gydag effaith personol a hygyrddedd i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol gyda sgiliau dylanwadu a thrafod cryf;
- Egni a phenderfyniad, gyda'r gallu i feithrin gweledigaeth a datblygu strategaethau diffiniedig i ddilyn nodau hir a byrdymor;
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, â'r gallu i fod yn glir ac yn gryno, ac i allu ymgysylltu â phobl ar bob lefel;
- Y gallu i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth gan ddangos parch at farn pobl eraill;
- Barn gadarn, sensitifrwydd a dealltwriaeth wleidyddol;
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o wneud penderfyniadau cyfranogol ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn barhaus;
- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn wydn; a'r
- Gallu i gyflawni rôl yr Is-gadeirydd yng nghyd-destun cyfrifoldebau statudol a chorfforaethol ehangach y Bwrdd a rolau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos:

- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt, ac i herio arferion gwahaniaethol.
- Dealltwriaeth glir o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Nolan ac ymrwymiad pendant iddynt.

Y Gymraeg

Mae Sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon. Disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a dangos arweinyddiaeth i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Tâl

Bydd swydd yr Is-gadeirydd yn cael tâl o £23,192 y flwyddyn (£223 y dydd) a delir yn fisol neu'n chwarterol fel ôl-daliadau fel y cytunir gyda'r Ymddiriedolaeth.

Lle y caniateir i Gyfarwyddwr Anweithredol gael amser o'i swydd bresennol â thâl i gyflawni eu dyletswyddau, ni chaiff unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol. Caiff eu trin yn yr un ffordd â gweithwyr eraill sy'n cael amser o'u swydd â thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

Treuliau

Bydd gennych hawl i gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebaw ar gyfer costau teithio a chynhaliadau a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Ymddiriedolaeth. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellir talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill hefyd, os cyflwynir derbynebaw, am gostau ychwanegol a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Ymddiriedolaeth.

Deiliadaeth y swydd

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n pennu hyd y penodiad, a fydd am hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Er hynny, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod y Cyfarwyddwr Anweithredol yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y rôl drwy gydol y cyfnod hwn. Gall aelodau o'r Bwrdd sefyll am uchafswm o wyth (8) mlynedd.

Atebolrwydd

Penodir y Cyfarwyddwyr Anweithredol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn atebol i'r Gweinidog drwy'r Cadeirydd am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth i Aelodau Anabl

Lle y bo'n briodol, bydd pob addasiad rhesymol yn cael ei wneud, er mwyn galluogi Cyfarwyddwyr Anweithredol i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Cymhwysra

Gwaherddir pobl rhag cael eu penodi os byddant:

- a. wedi eu cael yn euog yn y pum mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o dri mis neu fwy;
- b. wedi eu gwneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'u credydwyd;
- c. wedi cael eu diswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig o fewn corff y gwasanaeth iechyd;
- ch. yn unigolyn y terfynwyd eu cyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw eu penodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynd i gyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol;
- d. yn cael eu cyflogi gan gorff gwasanaeth iechyd.

Yn amodol ar yr eithriad a nodir yn (d), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru fod pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG yn cael seibiant heb ymwneud â'r GIG cyn cael eu hystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus y GIG.

Dylid datgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd bob amser.

Yn benodol, rhaid i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddyn nhw neu i Lywodraeth Cymru pe bai'n dod yn hysbys ar ôl iddynt gael eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymwyso rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015.

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n benodol bod gofyn i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Os cânt eu penodi, bydd angen i Gyfarwyddwyr Anweithredol ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau wedi codi a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i Gyfarwyddwyr Anweithredol gadw at safonau llywodraethu da a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru, sy'n seiliedig ar Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ymgorffori "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" Nolan.

<https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life/the-7-principles-of-public-life--2>

Ynglŷn ag Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cefndir

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru. Ei weledigaeth yw **Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru** ac, wrth gyflawni'r weledigaeth hon, mae'n chwarae rhan ganolog mewn ysgogi gwelliannau o ran iechyd a llesiant y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella canlyniadau gofal iechyd, diogelu'r cyhoedd a chefnogi datblygiad iechyd ym mhob polisi ledled Cymru.

Mae'r sefydliad yn gweithio'n agos gyda chymunedau, sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol, gweinidogion a swyddogion ac ystod eang o bartneriaid gan gynnwys y sector gwirfoddol, tai, addysg a'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol. Mae ganddo rôl gynyddol hefyd o ran cefnogi iechyd cyhoeddus yn rhyngwladol fel Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd a thrwy ei holl gysylltiadau â phartneriaid rhyngwladol gan gynnwys Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

Mae'n gyfnod cyffrous i iechyd cyhoeddus yng Nghymru gyda chyd-destun polisi a deddfwriaeth arloesol a blaengar sy'n sicrhau bod iechyd, llesiant a chynaliadwyedd yn flaenllaw yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae tri sbardun o bwys i hyn, sef *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*, y *Rhaglen Lywodraethu: Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol a Cymru iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol*.

Mae ein ffocws yn glir iawn. Er mwyn gwneud gwelliannau i iechyd a llesiant ar raddfa fawr ac yn gyflym a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru, bydd angen i ni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio, cefnogi ein pobl yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn genedlaethol ac yn lleol, i feddwl, ymgysylltu a gweithio gyda phartneriaid yn wahanol a rheoli a chyflwyno newid yn dda. Mae angen i ni hefyd gefnogi ein partneriaid gan gynnwys cymunedau, gweithleoedd, y GIG, awdurdodau lleol, y trydydd sector, yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub ac asiantaethau tai i ddod yn eiriolwyr ac yn hyrwyddwyr iechyd cyhoeddus o fewn ac ar draws cymunedau. Yn ogystal, mae angen moderneiddio sut rydym ni, a'r system iechyd cyhoeddus ehangach, yn ymgysylltu, yn rhyngweithio ac yn cyfathrebu â'r cyhoedd a chymunedau yn gyffredinol.

Rydym wedi sefydlu nifer o bartneriaethau strategol allweddol a chydweithrediadau i ysgogi gwelliannau mewn iechyd, llesiant a chynaliadwyedd ledled Cymru - gyda ffocws penodol ar adeiladu gwytnwch a'r penderfynyddion ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys *CymruWellWales*, sef partneriaeth strategol draws-sector sy'n arwain ar gyfer Cymru o ran yr ymgyrch 1000 Diwrnod Cyntaf a Chanolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), y rhaglen genedlaethol *Camau Cynnar Gyda'n Gilydd* gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol er mwyn ymgorffori dull iechyd cyhoeddus o blismona yng Nghymru a *Phartneriaeth Iechyd a Thai* strategol i Gymru.

Yr hyn rydym yn ei wneud

Prif swyddogaethau'r sefydliad yw:

Darparu Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus:

- ❖ **Darparu rhaglenni sgrinio cenedlaethol:** cynorthwyo i ganfod, atal a thrin clefydau yn gynnar.
- ❖ **Diogelu'r cyhoedd rhag niwed:** darparu gwybodaeth a chynghor a gweithredu i ddiogelu pobl rhag clefydau trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol.
- ❖ **Darparu rhwydwaith o wasanaethau microbiolog:** cefnogi diagnosis a rheoli clefydau heintus.
- ❖ **Diogelu pobl:** darparu arbenigedd a chynghor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwella Iechyd a Llesiant:

- ❖ **Gwella Iechyd:** darparu gwybodaeth a chynghor a gweithredu, ar draws sectorau, i hybu iechyd, atal clefydau a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- ❖ **Gwybodaeth am Iechyd:** darparu dadansoddiadau o ddata iechyd cyhoeddus, tystiolaeth a gwybodaeth i gefnogi dulliau o wella iechyd a llesiant (mae'r swyddogaeth hon yn cael ei symud i'r Gyfarwyddiaeth Wybodaeth newydd yn y sefydliad ar hyn o bryd).
- ❖ **Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig:** cryfhau'r effaith ar iechyd cyhoeddus ar lefel leol drwy gefnogi cymunedau i helpu pobl i aros yn iachach am gyfnod hirach.
- ❖ **Datblygu Uned Newid Ymddygiad newydd i Gymru –** caiff yr uned ei sefydlu yn ystod 2019/2020.

Gwella Canlyniadau Gofal Iechyd:

- ❖ **Gwella ansawdd a diogelwch cleifion yn y GIG:** darparu gwybodaeth, cynghor a chymorth i'r GIG er mwyn gwella canlyniadau i gleifion.
- ❖ **Darparu 1000 o Fwydau – Gwasanaeth Gwella:** cymorth â ffocws cenedlaethol a lleol i feithrin capasiti a gallu ledled y GIG a gwella ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir yn lleol.
- ❖ **Cymorth wedi'i deilwra ar gyfer rhaglenni gofal iechyd cenedlaethol:** darparu arbenigedd gwella ar gyfer rhaglenni gwaith gofal iechyd cenedlaethol y GIG.

Dylanwadu ar Bolisi, Cynnal Gwaith Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol:


- ❖ **Dylanwadu ar bolisi:** mynd i'r afael â phenderfyniuddion ehangach iechyd er mwyn gwella iechyd a llesiant y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- ❖ **Cynnal a chomisiynu gwaith ymchwil a gwerthuso:** ar gamau gweithredu iechyd cyhoeddus effeithiol i lywio dulliau gweithredu presennol a dulliau gweithredu yn y dyfodol, deall anghenion y boblogaeth a defnyddio gwybodaeth (mae'r swyddogaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r Gyfarwyddiaeth Wybodaeth newydd).

- ❖ **Datblygiad rhyngwladol:** gweithio gyda phartneriaid yn y DU ehangach, Ewrop ac yn fwy cyffredinol i gefnogi iechyd mewn gwledydd eraill, dysgu o ddulliau iechyd cyhoeddus effeithiol, tystiolaeth mewn mannau eraill, a rhannu arferion da o Gymru.
- ❖ **Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd** ar fuddsoddi ar gyfer iechyd a llesiant.

Mae gennym hefyd amrywiaeth o swyddogaethau cefnogi gwasanaethau corfforaethol.

Ein Strategaeth

Gyda chymorth ein staff, ein partneriaid a'r cyhoedd yng Nghymru, rydym wedi datblygu Strategaeth Hirdymor ar gyfer 2018-2030. Pwyswch Ctrl a chliciwch ar y graffeg isod i gael rhagor o wybodaeth.



Bydd y Strategaeth hon yn ein galluogi i ganolbwyntio ar y ffordd orau o weithio gyda'n partneriaid i gael yr effaith fwyaf posibl ar wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

Mae Crynodeb Gweithredol o'n Cynllun Strategol i'w weld ar dudalen 22.

Ein Gwerthoedd

Cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth.

Strwythur y Sefydliad

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru strwythur sefydliadol newydd i sicrhau bod y sefydliad wedi'i gynllunio'n briodol i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ac ychwanegu'r gwerth mwyaf at wella iechyd yng Nghymru. Mae'r sefydliad wrthi'n rhoi'r strwythur newydd ar waith ac felly mae cryn newid cyffrous ar y gweill. Gweler y strwythur sefydliadol ar dudalen 21.

Fel sefydliad cenedlaethol, mae staff hynod o dalentog wedi'u gwasgaru ledled Cymru gyda'r pencadlys yng Nghaerdydd, yng nghanol y brifddinas. Mae llawer o'n staff hefyd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd a labordai ledled Cymru gyda rhai wedi'u lleoli yn adeiladau'r saith bwrdd iechyd.

Gorchymyn Sefydlu

Sefydlwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru fel Ymddiriedolaeth GIG ar 1 Hydref 2009. Ei swyddogaethau fel y'u nodir yn ei Orchymyn Sefydlu yw:

- (a) darparu i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, neu mewn perthynas ag ef, a rheoli amrediad o wasanaethau iechyd cyhoeddus, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, cynghori ar iechyd, amddiffyn plant a labordy microbiolegol a gwasanaethau'n ymwneud â gwyliadwriaeth dros glefydau trosglwyddadwy, a'u hatal a'u rheoli
- (b) datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer peri bod gwybodaeth ynghylch materion sy'n ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru; gwneud a chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath a darparu a datblygu hyfforddiant mewn materion o'r fath
- (c) gwneud yn systematig y gwaith o gasglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth ynghylch iechyd pobl Cymru, gan gynnwys yn enwedig mynychder achosion o gancr, eu marwoldeb a'u goroesiad; a chyffredinolrwydd anghysonderau cynhenid
- (ch) darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a gwneud ymchwil i sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion ymwneud ag iechyd.

Aelodaeth y Bwrdd

Mae'r [Bwrdd](#) yn Fwrdd unedol sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol. Mae'r tabl canlynol yn rhestru aelodau ein Bwrdd ac aelodau ychwanegol o'r Tîm Gweithredol.

Cyfarwyddwyr Anweithredol	
Cadeirydd	Jan Williams OBE
Is-Gadeirydd	Kate Eden
Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgolion)	Diane Crone
Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector)	Kate Young
Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd)	Sian M Griffiths OBE
Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)	Mohammed Mehmet
Cyfarwyddwr Anweithredol	Dyfed Edwards
Cyfarwyddwr Anweithredol (Digidol a Data)	Nick Elliott
Cyfarwyddwyr Gweithredol	
Prif Weithredwr	Dr Tracey Cooper
Dirprwy Brif Weithredwr/ Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid	Huw George
Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Dr Fu-Meng Khaw
Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol / Cyfarwyddwr Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd	Yr Athro Mark Bellis
Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	Rhiannon Beaumont-Wood
Cyfarwyddwr Cenedlaethol dros Wybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd	Iain Bell
Aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol	
Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant	Angela Jones
Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol	Neil Lewis
Cyfarwyddwr dros Wella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion / Cyfarwyddwr Gwelliant	Yr Athro John Boulton

Cymru	
Ysgrifennydd y Bwrdd	
Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd	Helen Bushell

Rhagor o wybodaeth

Gwe: <https://icc.gig.cymru/>

E-bost: <mailto:general.enquiries@wales.nhs.uk>

Trydar: @lechydcyhoeddus

Facebook: www.facebook.com/#!/PublicHealthWales

Strwythur Sefydliadol Iechyd Cyhoeddus Cymru



Crynodeb Gweithredol y Cynllun Strategol

Y cynllun strategol hwn yw'r cynllun tair blynedd cyntaf i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor, sy'n ymestyn o 2018 hyd at 2030. Mae'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i weithio tuag at gyflawni ein Strategaeth Hirdymor newydd a sut rydym yn bwriadu cyflawni ein diben, sef '**Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru**'.

Mae'n dangos sut y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion, drwy gyflawni ein saith blaenoriaeth strategol, ar wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl i iechyd a llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Ers cyfnod cynnar pandemig COVID-19, cafodd ein Cynllun Strategol ei rewi tra roedd y sefydliad yn ad-drefnu er mwyn ymateb i ddiogelu iechyd. Yn raddol, mae gwaith pellach wedi cychwyn ar nifer o flaenoriaethau strategol eraill ac yn ddiweddar cymeradwywyd amrywiad yn ystod y flwyddyn i'r [Cynllun Gweithredol](#) blaenorol. Yn ystod 2022/23, rydym yn y broses o adolygu ac adnewyddu ein Cynllun Hirdymor..

Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar gyflawni ein blaenoriaethau strategol, sef yr hyn rydym yn eu hystyried yw ein hamcanion llesiant fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Nodir y rhain isod:

Ein Blaenoriaethau Strategol / amcanion llesiant	
1.	Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd Byddwn yn cydweithio ag eraill i ddeall a gwella'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd pawb. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar benderfynyddion allweddol gan gynnwys teulu, ffrindiau a chymunedau, tai, addysg a sgiliau, gwaith da, arian ac adnoddau a'n hamgylchedd hefyd.
2.	Gwella llesiant meddyliol a meithrin cydnherthedd Byddwn yn helpu pawb i gyflawni eu potensial yn llawn ac i allu ymdopi'n well â'r heriau y mae bywyd yn eu taflu atom. Mae dulliau gwella llesiant meddyliol sy'n seiliedig ar y boblogaeth yn helpu unigolion i gyflawni eu potensial yn llawn; dygymod â'r heriau sy'n codi; gweithio'n gynhyrchiol a chyfrannu at eu bywyd teuluol a'u cymunedau. Mae llesiant meddyliol da yn effeithio ar iechyd corfforol yn ogystal ag iechyd meddwl ac mae ganddo'r potensial i ddylanwadu ar anghydraddoldebau iechyd cysylltiedig.
3.	Hyrwyddo ymddygiad iach Byddwn yn deall yr hyn sy'n sbarduno ymddygiad afiach ac yn ei gwneud yn haws i bobl wneud dewisiadau iach. Drwy leihau'n gyflym nifer y bobl sy'n ysmegu, cynyddu gweithgarwch corfforol, hyrwyddo pwysau iach, ac atal niwed o ganlyniad i amrywiaeth o ymddygiadau, gan gynnwys defnyddio sylweddau, byddwn yn lleihau baich afiechyd ac yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd sy'n deillio o gyflyrau hirdymor fel gordewdra, canser, cyflyrau'r galon, strôc, clefyd anadlol a dementia.
4.	Sicrhau dyfodol iach ar gyfer y genhedlaeth nesaf drwy ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar Byddwn yn gweithio gyda rhieni a gwasanaethau i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru. Diffinnir blynyddoedd cynnar mewn polisi yng Nghymru fel y cyfnod rhwng dechrau beichiogrwydd hyd at saith mlwydd oed. Mae blynyddoedd cynnar plentyn yn amser allweddol i sicrhau

Iechyd Cyhoeddus Cymru

canlyniadau da yn ddiweddarach mewn bywyd gan gynnwys dysgu gwell, mynediad at waith da a bywyd sy'n rhoi boddhad.

- 5. Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd**
Byddwn yn rhoi ein harbenigedd ar waith i ddiogelu'r boblogaeth rhag haint a bygythiadau sy'n deillio o ffactorau amgylcheddol, gan weithio ar y cyd ag eraill i liniaru'r risgiau hyn i iechyd pobl. Bydd hyn yn cynnwys canfod yn gynnar, cynllunio da a defnyddio adnoddau ar y cyd ag eraill i ddarparu ymateb effeithiol i'n poblogaeth.
- 6. Cefnogi gwaith i ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar**
Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid i gefnogi gwaith i ddatblygu systemau iechyd a gofal cynaliadwy a hygyrch sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar sgrinio cenedlaethol sy'n seiliedig ar boblogaeth, lleihau amrywiaeth ac anghydraddoldeb o ran gofal a niwed wrth ei gyflwyno a chefnogi gofal sy'n symud yn nes at y cartref.
- 7. Meithrin a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ledled Cymru**
Byddwn yn datblygu'r sgiliau, polisïau a gwybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn ein cynorthwyo ni a'n partneriaid i wella iechyd a llesiant. Drwy ein gwaith, byddwn yn galluogi gwybodaeth leol, genedlaethol a rhyngwladol i gael ei chreu, ei hadolygu a'i chyfleu'n brydlon er mwyn gwella, diogelu a chynnal iechyd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn effeithiol. Byddwn yn llywio polisi ac ymarfer drwy wybodaeth arbenigol, ddiduedd, ddibynadwy gan arwain dull system gyfan, traws-sector ar gyfer iechyd y boblogaeth.

Yr heriau sy'n ein hwynebu

Cyn y pandemig COVID-19, roeddem wedi cymryd camau breision o ran gwella iechyd y boblogaeth yn y blynyddoedd diwethaf. Mae ein poblogaeth yn byw'n hirach nag erioed o'r blaen. Fel llawer o wledydd eraill, rydym yn wynebu heriau cynyddol ynghylch sut i aros yn iach wrth i ni fynd yn hŷn. Rydym hefyd yn parhau i fod ag anghydraddoldebau iechyd anhydrin mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae hyn yn golygu nad ydym mor iach ag y gallem fod wrth i ni heneiddio. Mae angen cefnogaeth sylweddol ar rai ohonom hefyd ac mae hyn yn cyfrannu at heriau difrifol o ran cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru. Yn amlwg, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd yng Nghymru ac rydym bellach yn canolbwyntio ar ddeall a chynghori o ran y ffordd orau i liniaru niwed economaidd-gymdeithasol a niwed iechyd sy'n deillio o'r pandemig. Er gwaethaf hyn, mae gennym gyfle gwirioneddol i wynebu'r heriau hyn drwy weithio gyda'n gilydd ar draws pob rhan o gymdeithas a sectorau. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n meithrin gallu ac ymddiriedaeth ac sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gwyddom fydd yn sicrhau'r iechyd a'r llesiant gorau i'n pobl. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi cymryd amser i ddeall beth sy'n gweithio orau yn y tymor hir. Bydd hyn yn ein helpu i ganolbwyntio a blaenoriaethu ein hymdrechion ar y cyd i wella iechyd a llesiant pobl Cymru. Bydd y darlun hwn o iechyd yng Nghymru yn mynd yn fwy cymhleth fyth yn y dyfodol os byddwn yn parhau i wneud yr un peth ag yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol.

Ein cyfleoedd i wneud gwahaniaeth

Nid ydym yn bychanu'r heriau hyn, ond rydym o'r farn bod gennym gyfle gwirioneddol i gyflawni gwelliannau pendant i bobl Cymru ar gyflymder ac ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen. Rhaid i ni geisio defnyddio ein hasedau cyfunol a manteisio arnynt, datblygu a meithrin cydweithredu agos rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, y byd academiaidd a phartneriaid ar draws y seilwaith ymchwil ehangach yng Nghymru a chroesawu egwyddorion cynaliadwyedd a gofal iechyd darbodus a'r cyfleoedd unigryw a gyflwynir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyfleoedd cyffrous i ni weithio ar draws ffiniau a chyda phobl a phartneriaid nad ydym wedi gweithio'n agos â nhw o'r blaen a'n galluogi i barhau i gyflwyno newid sylfaenol o ran y ffordd rydym yn gweithio.

Byddwn yn gwneud hyn drwy barhau i groesawu'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf. Y rhain yw:



Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydweithio



Cynnwys

Mae enghreifftiau o sut rydym yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio wedi'u nodi yn ein cynllun, a gellir gweld astudiaethau achos ac enghreifftiau pellach yn ein Datganiad Llesiant newydd. Rydym hefyd wedi nodi ym manylion y cynllun sut mae pob blaenoriaeth strategol/amcan llesiant yn cyd-fynd â'r nodau a'r pum ffordd o weithio yn y Ddeddf a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w cyflawni dros y blynyddoedd nesaf.

Y GIG yng Nghymru

Mae iechyd pobl Cymru yn parhau i wella. Mae camau breision wedi'u gwneud yn yr 20 mlynedd diwethaf yn erbyn y ddau glefyd sy'n achosi marwolaeth i lawer, sef cancer a chlefyd y galon. Mae marwolaethau cynamserol oherwydd clefyd y galon ymysg dynion wedi gostwng 60 y cant ers 1991. Cafwyd cryn lwyddiant yn dilyn ymdrechion dwys yn erbyn ysmegu, camddefnyddio alcohol a sylweddau ac ymddygiadau sy'n peri risg. Mae hyn wedi arwain at welliant o un flwyddyn i'r llall o ran canlyniadau iechyd fel cenedl.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae mwy i'w wneud ac mae ymrwymiad a dyhead o hyd i gydweithio i leihau effaith iechyd gwael.

Mae cryn heriau o hyd o ran sicrhau bod statws iechyd y boblogaeth gyfan yn fwy cyfartal. Mae manau traddodiadol o amddifadedd, sy'n anodd eu dileu, yn parhau i fodoli mewn gwahanol rannau o'r wlad. Nod Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng Nghymru trwy fynd ar drywydd dull gweithredu 'iechyd ym mhob polisi', a gefnogir gan ymchwil a gwybodaeth gydgysylltiedig. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a basiwyd yn ddiweddar yn ddeddfwriaeth arloesol sy'n rhoi iechyd a chynaliadwyedd wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru er mwyn creu Cymru iachach, hapusach a thecach.

Cafodd y GIG yng Nghymru ei ad-drefnu i sefydlu saith bwrdd iechyd yn cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a darparu'r holl wasanaethau yn eu hardaloedd - o ofal sylfaenol i ofal trydyddol. Mae cyfle gwych i adeiladu hyn ar sail model integredig sy'n canolbwyntio ar atal salwch a chadw pobl yn iachach yn hirach.

Mae Cymru'n wynebu pwysau tebyg i'r hyn y mae'r GIG yng ngweddill y DU yn ei wynebu. Ar ben hynny, mewn cyfnod o gyni economaidd difrifol mae'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu her ariannol aruthrol. Felly, mae angen edrych o'r newydd ar sut y mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu a'u cyflenwi i bobl Cymru, a hynny mewn ffordd radical. Mae angen inni sicrhau bod gwaith sylweddol yn cael ei wneud dros y blynyddoedd nesaf i barhau i foderneiddio gwasanaethau a sicrhau gwasanaeth iechyd cynaliadwy sy'n bodloni'r galw cynyddol. Rhaid i hyn gael ei gyflawni yng nghyd-destun helpu pobl i aros yn iachach yn hirach.

Y Llywodraeth

Sefydlwyd [Llywodraeth Cymru](#) ym 1999 yn dilyn refferendwm y flwyddyn flaenorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau rhagor o bwerau ers hynny a bellach gall ddeddfu ar bob pwnc yn yr 20 maes datganoledig heb fod angen cytundeb Senedd y DU yn gyntaf. Mae datblygu economaidd, iechyd, addysg, llywodraeth leol, trafnidiaeth, cynllunio a diwylliant ymysg y materion sydd wedi'u datganoli felly, gan weithio'n genedlaethol ac yn lleol, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fynediad at ysgogiadau polisi a systemau cyflenwi lleol. Mae 22 o awdurdodau lleol unedol yng Nghymru ac ystod o sefydliadau Cymru gyfan sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus yn y wlad.

Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu eich ffurflen gais o ran eich CV a'ch datganiad personol, i benderfynu a ydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad personol yn unig i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Dylech sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a'r cwestiynau y gofynnwyd i chi eu hateb fel rhan o'ch datganiad personol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Jan Williams, Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caiff yr Aelod Annibynnol o'r Panel eu cadarnhau maes o law.

Gofynnir i ymgeiswyr a wahoddir am gyfweiliad gwrdd, hefyd, â Phanel Rhanddeiliaid, a gynhelir ar yr un diwrnod â'r cyfweiliad. Mae aelodaeth y Panel i'w gadarnhau.

Yn amodol ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar "restr hir", cyn iddo gael ei anfon ymlaen at y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na chaiff eich cais ei ystyried yn llawn gan y panel dethol cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel, yn ystod mis Tachwedd 2022 wedi gwneud argymhellion i'r Gweinidog ynghylch pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad ar 7 Rhagfyr 2022.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf yn y datganiad personol fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac os nad yw dyddiad y cyfweiliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad y trefnir y cyfweiliad, byddwn yn ymdrechu i'w aildrefnu ond efallai na fydd yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Cewch neges e-bost drwy'r system Penodi i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir ar gyfer y rôl. Efallai y bydd y broses benodi yn ogystal â'r cyfweiliad yn cynnwys asesiadau pellach o addasrwydd ar gyfer y rôl. Caiff y rhai sy'n cael eu gwahodd am gyfweiliad ragor o wybodaeth ymlaen llaw.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' ym marn y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr 'penodadwy' cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cwrdd â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel dethol neu gynrychiolydd enwebedig y cadeirydd. Bydd bwlch o ran amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Cedwir mewn cysylltiad â'r ymgeiswyr sydd wedi'u cyfweld, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Aelod Annibynnol o Iechyd Cyhoeddus Cymru, a bydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu â nhw i gael adborth am eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych ymholiadau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus a restrir ar y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor diweddaraf er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau yn deg, yn agored ac yn dryloyw ac yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'i God Ymarfer ar gael o <http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk>

Os nad ydych yn hollol fodlon

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os ydych chi'n dal i bryderu ar ôl cael ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Cysylltwch â'r:

Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
1 Horse Guards Road
Llundain:
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849

E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk

Datganiad amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Croesewir ceisaidau'n arbennig gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.